Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

## Canllawiau i Ganolwyr Meddygol amlosgfeydd

**Medi 2024**

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Diwygio Tystysgrifau Marwolaeth a'r system Archwilwyr Meddygol | 3 |
| Rôl MR – crynodeb o'r prif faterion i'w hystyried cyn awdurdodi amlosgi | 6 |
| Deddfwriaeth berthnasol: Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 | 8 |
| Ffurflen Amlosgi 1: Cais am amlosgi corff unigolyn sydd wedi marw | 10 |
| Ffurflen Amlosgi 2: Cais am waredu rhannau o gorff | 13 |
| Ffurflen Amlosgi 3: Cais i amlosgi baban marwanedig | 14 |
| Ffurflen Amlosgi 6: Tystysgrif crwner | 15 |
| Ffurflen Amlosgi 7: Tystysgrif yn dilyn archwiliad anatomegol | 16 |
| Ffurflen Amlosgi 8: Tystysgrif yn rhyddhau rhannau o gorff i'w hamlosgi | 17 |
| Ffurflen Amlosgi 9: Tystysgrif genedigaeth farw | 17 |
| Ffurflenni Amlosgi 10, 12 a 13: Awdurdod canolwr meddygol i amlosgi | 18 |
| Ffurflen Amlosgi 11: Tystysgrif yn dilyn archwiliad post-mortem | 19 |
| Materion eraill | 20 |
| Rhagor o Wybodaeth | 22 |
| Atodiad A – Mewnblaniadau pŵer batri a dyfeisiadau meddygol mewnblanadwy eraill a allai achosi problemau wrth amlosgi | 23 |

# Cyflwyniad

1. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer Canolwyr Meddygol (MR) Amlosgfeydd ac maent yn nodi sut y dylent gyflawni eu dyletswyddau o dan Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008.
2. Mae cyfeiriadau at 'rheoliadau 2008' yn y ddogfen hon yn ymwneud â Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Amlosgi, Crwneriaid a Hysbysu Marwolaethau (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2024 sydd ar gael drwy'r ddolen hon; Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (legislation.gov.uk).
3. Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu diweddaru yng ngoleuni'r broses tystysgrifau marwolaeth statudol newydd a'r newidiadau cysylltiedig a ddaeth i rym ar y 9fed o Fedi 2024.

# Diwygio Tystysgrifau Marwolaeth a'r system Archwilwyr Meddygol

## Diwygio Tystysgrifau Marwolaeth: crynodeb o'r newidiadau

4. Daeth y broses tystysgrifau marwolaeth statudol newydd i rym ar y 9fed o Fedi 2024. O dan y system hon, mae'r holl farwolaethau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu harchwilio'n annibynnol, naill ai gan grwner[1] neu gan Archwilydd Meddygol (ME). Mae ME yn uwch feddyg sy'n craffu'n annibynnol ar bob marwolaeth nad ydynt yn gysylltiedig â chrwner.

5. **Mae un o'r newidiadau allweddol yn ymwneud â'r cymhwysedd ar gyfer cwblhau'r Dystysgrif Feddygol o Achos y Farwolaeth (MCCD):** O dan y system newydd mewn achosion **nad** ydynt yn cynnwys crwner, marw-enedigaethau, rhannau o'r corff nac ymchwil anatomegol, **mae unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig sydd wedi ymweld â'r ymadawedig yn ystod ei oes bellach yn gymwys i gwblhau'r MCCD** a chynnig achos marwolaeth hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred. Mae'r newid hwn yn symleiddio'r meini prawf presenoldeb blaenorol. Mae mân ddiwygiad wedi'i wneud i'r Rheoliadau Hysbysu Marwolaethau i adlewyrchu hyn.

6. **Mae newid allweddol arall yn ymwneud â gwybodaeth am ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy:** Mae bodolaeth **dyfeisiau meddygol mewnblanadwy** bellach wedi'u cofnodi ar yr MCCD gan yr ymarferydd cofrestredig sy'n bresennol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r cofrestrydd a fydd yn ei hychwanegu at ffurflen a fydd yn mynd gyda'r Dystysgrif ar gyfer Claddu neu Amlosgi, a elwir hefyd yn 'y ffurflen werdd' a gynhyrchir gan y cofrestrydd. Bydd y wybodaeth ar y ffurflen gysylltiedig yn cael ei rhannu a'i throsglwyddo gan ymgeisydd yr ymadawedig i'r awdurdod claddu neu'r amlosgfa – a fydd yn awr yn cael gwybod yn gyson am bresenoldeb unrhyw ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy yn yr ymadawedig.

7. **Mae newid allweddol arall yn ymwneud â rôl y ME:** Uwch ymarferydd meddygol yw ME sy'n **craffu'n annibynnol ar achos y farwolaeth a gynigir gan yr ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n bresennol**. Cefnogir ME gan Swyddogion Archwilwyr Meddygol (MEO), ac mae eu gwaith craffu annibynnol yn cynnwys adolygu cofnodion meddygol, rhyngweithio â'r ymarferydd cofrestredig sy'n bresennol sy'n llenwi'r MCCD, a chynnig cyfle i gynrychiolwyr yr ymadawedig ofyn cwestiynau a mynegi unrhyw

[1] Mae darpariaethau statudol fel arfer yn cyfeirio at 'uwch-grwner'. Fodd bynnag, mae darpariaeth statudol hefyd i grwneriaid ardal a chrwneriaid cynorthwyol arfer pwerau a chyflawni dyletswyddau uwch-grwner. Felly, er hwylustod, defnyddir y term cyffredinol 'crwner' drwy'r canllawiau hyn.

bryderon. Bydd manylion yr ME a'r ymarferydd cofrestredig a fydd yn bresennol yn cael eu cynnwys ar y ffurflen atodol i'r 'ffurflen werdd'.

## Newidiadau i ddogfennau:

8. Nid yw'r diwygiad diweddar i dystysgrifau marwolaeth yn effeithio ar lawer o'r rheoliadau presennol sy'n llywodraethu amlosgiadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi:
   - Mae'r gofyniad am **dystysgrif feddygol (ffurflen Amlosgi 4)** wedi cael ei ddileu'n barhaol, ac mae **tystysgrif feddygol gadarnhau (ffurflen Amlosgi 5) wedi ei dileu yn barhaol.**
   - **Mae hawl yr ymgeisydd i archwilio'r dystysgrif feddygol (ffurflen Amlosgi 4)** cyn i'r **Canolwr Meddygol (MR) awdurdodi'r amlosgi wedi cael ei hepgor gan na fydd y ffurflen hon yn bodoli mwyach.** Fodd bynnag, fel yr esbonnir ym mharagraff 7 uchod, bydd ME yn cynnig cyfle i gynrychiolwyr yr ymadawedig ofyn cwestiynau a mynegi pryderon am achos y farwolaeth yn gynharach.
   - **Mae ffurflen Amlosgi 1 wedi cael ei diwygio** – gweler paragraff 39 isod.
   - **Mae meysydd ar bresenoldeb dyfeisiau meddygol mewnblanadwy wedi cael eu hychwanegu** at ffurflen Amlosgi 6 – gweler paragraff 64 isod.
   - **Mae ffurflen Amlosgi 10 wedi cael ei diwygio** – gweler paragraff 75 isod.
   - **Ar gyfer marwolaethau yng ngweddill Ynysoedd Prydain (ac eithrio Cymru a Lloegr) bydd Rheoliadau 2008 fel yr oeddent cyn 2024 yn parhau i fod yn berthnasol, a bydd y ffurflenni a gyhoeddwyd yn 2018 yn cael eu defnyddio. Mae fersiwn o Reoliadau 2008 heb ddiwygiadau 2024 ar gael drwy ddilyn y ddolen hon:** https://www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance.

## Y broses newydd ar gyfer marwolaethau yng Nghymru a Lloegr

9. Bydd ymarferydd meddygol cofrestredig yn cynnig achos marwolaeth a fydd yn cael ei archwilio'n annibynnol gan ME ar ôl adolygu cofnodion meddygol perthnasol.

10. Bydd yr ME yn cynnig cyfle i bobl mewn profedigaeth ofyn cwestiynau a mynegi pryderon.

11. Unwaith y bydd yr ymarferydd meddygol cofrestredig a'r ME wedi gwneud eu datganiadau a bod achos y farwolaeth wedi'i gwblhau, ac os nad oes gofyniad i hysbysu'r crwner, anfonir yr MCCD i swyddfa'r cofrestrydd; bydd yr hysbysiad hwn hefyd yn dechrau'r targed 5 diwrnod i gofrestru'r farwolaeth. Ni fydd yn bosibl cofrestru marwolaeth heb i'r ME gymeradwyo'r MCCD.

12. Mae’r hysbysydd cofrestru, sef y person sy’n darparu’r wybodaeth am y person ymadawedig, ac eithrio achos y farwolaeth, i’r cofrestrydd, yn cael ei hysbysu ar yr un pryd fel y gall gysylltu â’r swyddfa gofrestru er mwyn cofrestru’r farwolaeth.

13. Mae’r hysbysydd yn cysylltu â swyddfa gofrestru a gwneir y trefniadau i gofrestru’r farwolaeth.

14. Pan ofynnir amdano, mae’r cofrestrydd yn cynhyrchu un neu fwy o gopïau ardystiedig o’r cofnod marwolaeth yn y gofrestr a elwir hefyd yn Dystysgrif Marwolaeth i gynrychiolydd yr ymadawedig ei phrynu.

15. Mae’r cofrestrydd yn cyhoeddi Tystysgrif ar gyfer Claddu neu Amlosgi (y ‘ffurflen werdd’) i hwyluso trefniadau’r angladd – fel rhan o’r broses hon byddant hefyd yn trosglwyddo gwybodaeth feddygol a ddarperir gan yr ymarferydd meddygol cofrestredig mewn perthynas â dyfeisiau meddygol mewnblanadwy, ond nid oes ganddynt unrhyw rôl yn y broses o wneud unrhyw benderfyniadau sy’n ymwneud â’r data hwn.[2]

16. **Nodyn ar rôl Canolwyr Meddygol yn y system newydd:** Mae rhwymedigaeth statudol yn rheoliad 6 Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 sy’n golygu bod yn rhaid i bob awdurdod amlosgi gael MR a chymaint o Ddirprwy MRs ag y bo’n briodol ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae’r llywodraeth wedi ymrwymo i gyfnod pontio tra bydd MEs yn cael eu cyflwyno. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd MEs a MRs. Byddwn yn rhoi rhybudd digonol ar gyfer unrhyw newidiadau er mwyn sicrhau bod pawb yn y system yn barod ar gyfer y prosesau newydd. Byddwn yn gwneud cyhoeddiad maes o law ynghylch pa newidiadau fydd eu hangen a byddwn yn diweddaru’r canllawiau hyn fel y bo’n briodol.

---

[2] Dylid codi unrhyw ymholiadau am y wybodaeth ar y ffurflen gyda naill ai’r ymarferydd meddygol cofrestredig neu ME.

# Rôl MR – crynodeb o'r prif faterion i'w hystyried cyn awdurdodi amlosgi

## Ffurflenni Amlosgi 1, 2 a 3

17. Rhaid i'r **ymgeisydd** ateb pob cwestiwn ar y ffurflenni.

18. **Mae gennych y pŵer statudol i wrthod ffurflenni sydd wedi'u llenwi'n annigonol, ac efallai y byddwch yn gwrthod awdurdodi amlosgi hyd nes y bydd y ffurflenni wedi'u llenwi'n foddhaol.** Fodd bynnag, rhaid i chi roi eich rhesymau yn ysgrifenedig i'r ymgeisydd os byddwch yn gwrthod awdurdodi amlosgi.

19. Rhaid i chi fod yn fodlon bod gan yr ymgeisydd hawl i lofnodi a llenwi'r ffurflen – gweler paragraff 42 isod.

20. Os yw crwner wedi llenwi ffurflen Amlosgi 6, mae dal angen i chi edrych ar ffurflen Amlosgi 1 i sicrhau bod y person priodol wedi gwneud cais am yr amlosgi.

## Ffurflen Amlosgi 6

21. Rhaid i chi fod yn fodlon bod naill ai:
    - Crwner wedi cyhoeddi ffurflen Amlosgi 6, neu
    - Bod y farwolaeth wedi'i chofrestru, neu
    - Nad oes angen cofrestru'r farwolaeth.

## Ffurflenni Amlosgi 7 a 8

22. Rhaid i **weithiwr meddygol proffesiynol cofrestredig** lenwi'r ffurflenni hyn.

23. Efallai yr hoffech wirio statws cofrestru'r gweithiwr meddygol proffesiynol cofrestredig a gwblhaodd y ffurflen gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

## Ffurflen Amlosgi 9

24. Dylai'r ffurflen hon gael ei llenwi gan naill ai **ymarferydd meddygol cofrestredig neu fydwraig gofrestredig** ym mhob achos lle bydd baban marwanedig yn cael ei amlosgi. Efallai yr hoffech wirio statws cofrestru'r gweithiwr meddygol proffesiynol a gwblhaodd y ffurflen gyda'r corff llywodraethu priodol, naill ai'r Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

## Ffurflenni Amlosgi 10, 12 a 13

25. Rhaid i'r **MR** lenwi'r ffurflenni hyn er mwyn awdurdodi amlosgi.

## Ystyriaethau Cyffredinol

26. **Ni ddylid rhoi pwysau arnoch i dderbyn ceisiadau munud olaf**; fodd bynnag, dylech fod yn barod i sicrhau eich bod ar gael rywbryd yn ystod pob diwrnod gwaith i adolygu ceisiadau.

27. Ni chaiff amlosgfeydd na darparwyr gwasanaethau angladd newid geiriad y ffurflenni amlosgi sydd ar gael yn gov.uk. **Ni ddylech awdurdodi unrhyw amlosgi sy'n defnyddio ffurflenni diwygiedig.**

# Deddfwriaeth berthnasol: Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

28. Dylech ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth yr ydych yn cyflawni eich dyletswyddau oddi tani.

29. Daeth Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (Rheoliadau 2008) i rym ar 1 Ionawr 2009. Fe wnaethon nhw foderneiddio a chyfuno'r holl reoliadau blaenorol, gan ddisodli Rheoliadau Amlosgi 1930 (fel y'u diwygiwyd). Cafodd Rheoliadau 2008 eu diwygio yn 2016, 2017, 2022 ac eto yn 2024.

30. **Ar ôl 9 Medi 2024, rhaid i geisiadau amlosgi gael eu gwneud gan ddefnyddio'r ffurflenni a gyflwynwyd drwy Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2017 a Rheoliadau Amlosgi, Crwneriaid a Hysbysiad o Farwolaethau (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2024**. Gellir lawrlwytho'r ffurflenni hyn o'n gwefan yn: www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance

31. **Dogfennau Cymraeg:** Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, yn gwneud darpariaeth ar gyfer creu safonau ymddygiad mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg ac yn gosod dyletswyddau ar gyrff penodol i gydymffurfio â'r safonau hynny. Roedd Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2017 yn darparu ar gyfer cyhoeddi ffurflenni amlosgi yn ddwyieithog i. Gellir lawrlwytho'r ffurflenni hyn o'n gwefan: Ffurflenni a Chanllawiau Amlosgi - GOV.UK (www.gov.uk)

## Cyfrifoldebau

32. Nodir eich cyfrifoldebau fel MR yn rheoliadau 23 i 28 Rheoliadau 2008, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

33. **Ni ddylech ganiatáu amlosgi oni bai:**
    - Eich bod yn fodlon bod y cais a'r tystysgrifau wedi'u cwblhau'n briodol ac yn unol â gofynion Rheoliadau 2008 fel y'u diwygiwyd;
    - Eich bod yn fodlon bod naill ai'r cais wedi'i wneud gan ysgutor neu berthynas agos i'r ymadawedig, neu fod y ceisydd yn berson priodol i wneud y cais a bod esboniad digonol ynghylch pam nad yw'r cais wedi'i wneud gan ysgutor neu berthynas agos;
    - Rydych yn fodlon bod y farwolaeth wedi'i chofrestru'n briodol, nad yw'n ofynnol ei chofrestru, neu fod crwner wedi cyhoeddi Tystysgrif crwner (ffurflen Amlosgi 6).

34. Ni fydd yn ofynnol mwyach i chi fod yn fodlon bod ffaith ac achos marwolaeth wedi'u canfod yn bendant mewn achosion nad ydynt yn cynnwys crwner – bydd hyn yn cael ei wneud yn gynharach yn y broses gan ME, a bydd tystiolaeth o hynny drwy fodolaeth Tystysgrif Amlosgi (y 'ffurflen werdd').

35. Hefyd:
    - Lle bo pryder efallai nad ydych yn ddigon annibynnol o'r meddyg sy'n cwblhau'r MCCD, dylech ystyried p'un a ddylai'r cais amlosgi gael ei graffu a'i awdurdodi gan MR arall;
    - Ni ddylech ganiatáu amlosgi os oes amgylchiadau amheus eraill sy'n gysylltiedig â marwolaeth yr ymadawedig, oni bai bod ymchwiliad wedi'i agor a bod crwner wedi llenwi ffurflen Amlosgi 6;
    - Os yw'r farwolaeth wedi'i chyfeirio at y crwner , ni ddylech ganiatáu'r amlosgi hyd nes y bydd ymchwiliad wedi'i agor, os bydd crwner wedi rhoi hysbysiad o'i fwriad i agor ymchwiliad; a
    - Dylech gyflwyno adroddiadau o'r fath i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn ôl yr angen o bryd i'w gilydd;

36. Os digwyddodd marwolaeth yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel ond bod amlosgiad i ddigwydd yng Nghymru a Lloegr, os nad ydych yn fodlon ynghylch achos y farwolaeth, mae rheoliad 24 yn dal yn berthnasol. Sylwch: nid ydym yn rhagweld y bydd angen defnyddio'r ddarpariaeth hon yn ymarferol a byddwn yn parhau i adolygu'r penderfyniad i gynnal y rheoliad hwn. Fodd bynnag, os yw rheoliad 24 yn gymwys, ni ddylech ganiatáu amlosgi os bydd archwiliad post-mortem a gynhelir o dan adran 24 yn methu â chanfod achos y farwolaeth, oni bai fod ymchwiliad wedi'i agor a bod crwner wedi cyhoeddi ffurflen Amlosgi 6.

# Ffurflen Amlosgi 1: Cais am amlosgi corff unigolyn sydd wedi marw

37. Rhaid i'r ymgeisydd lenwi a llofnodi'r ffurflen hon, gyda chefnogaeth darparwr y gwasanaeth angladdau, os defnyddir un, ym mhob achos lle mae'r ymadawedig i gael ei amlosgi.

38. Mae'r ffurflen Amlosgi 1 ddiwygiedig a gyhoeddwyd yn 2024 yn disodli'r fersiwn a gyhoeddwyd yn 2018. Mae wedi cael ei diweddaru i ystyried y diwygiadau i dystysgrifau marwolaeth.

39. Dyma'r prif newidiadau sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen:
    - lle i roi cyfeiriadau e-bost darparwr y gwasanaeth angladdau, pan y'u defnyddir, a'r ymarferydd meddygol cofrestredig, lle y bo'n hysbys, a ymwelodd â'r ymadawedig;
    - datganiad diogelu data;
    - datganiad yn cadarnhau bod yr holl ddogfennau perthnasol wedi'u darparu;
    - cwestiwn diwygiedig ynghylch presenoldeb dyfeisiau meddygol mewnblanadwy; ac
    - adran newydd sy'n ymwneud â'r gwaith o waredu unrhyw fetelau.

40. Mae'n hanfodol:
    - Bod y ffurflen wedi **ei llenwi yn llawn**;
    - **Atebwyd pob cwestiwn;**
    - **Does dim cwestiynau wedi'u dileu**; ac
    - Os yw wedi'i ysgrifennu â llaw, mae'r ysgrifen yn **ddarllenadwy**.

41. Mater i chi yw penderfynu a yw'r wybodaeth a ddarperir ar y cais yn caniatáu i chi awdurdodi'r amlosgi, gyda neu heb ymholiad pellach. Efallai yr hoffech wneud ymholiadau pellach gyda'r ME ac mewn rhai achosion yr ymgeisydd.

## Rhan 2: Manylion yr ymgeisydd

42. **Cwestiwn 1:** Dylai'r cais gael ei wneud gan ysgutor neu berthynas agos i'r ymadawedig. Lle nad yw, rhaid i'r ymgeisydd fod yn "berson priodol" i wneud y cais a dylid gwneud ymholiadau i ganfod naill ai:
    - bod ymdrechion i ganfod unrhyw ysgutor neu berthnasau agos wedi methu;
    - nad yw'r ysgutor neu'r perthnasau agosaf yn gwrthwynebu amlosgi;
    - nad yw'r ysgutor neu'r perthnasau agosaf yn dymuno gwneud y cais ei hunain.

43. Mewn rhai achosion, bydd y perthynas agosaf yn cael ei ddisgrifio fel rhywun sy'n rhy ddigalon i wneud y cais yn bersonol a bydd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i aelod arall

o'r teulu. Mae hyn yn ddealladwy, ond efallai y bydd angen i chi wneud ymholiadau pellach i sefydlu'r sefyllfa gywir.

44. **Cwestiwn 3**: Efallai y bydd adegau pan fydd yr ateb yn dangos gwrthwynebiad gan berthynas agos arall, neu ysgutor, i'r amlosgi arfaethedig. Yn yr amgylchiadau hyn, byddem yn awgrymu eich bod chi a'r awdurdod amlosgi yn gwahodd yr ymgeisydd i ddatrys unrhyw faterion allanol cyn gwneud cais am amlosgiad – gellir gwneud hyn drwy ddarparwr gwasanaeth angladdau, os defnyddir un.

## Rhan 3: Manylion yr unigolyn sydd wedi marw

45. Mae **Cwestiwn 4** yn gofyn am unrhyw ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy a allai fod yn beryglus yn ystod amlosgi, er enghraifft rheolydd calon, dyfais ymbelydrol neu system hoelion "Fixion" i drwsio esgyrn. Gall rhai dyfeisiau meddygol mewnblanadwy achosi niwed i beiriannau neu beri risg i fywyd dynol. Felly, mae'n hanfodol sicrhau bod unrhyw wybodaeth am ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy, a'u tynnu, yn cael ei chynnwys ar ffurflen Amlosgi 1, gan yr ymgeisydd cyn anfon y ffurflen at yr amlosgfa. Ceir rhestr o ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy a allai achosi problemau wrth amlosgi yn Atodiad A. Bydd angen i chi wirio a chymharu'r wybodaeth a ddarperir yma â'r wybodaeth a ddarperir ar y 'ffurflen werdd' a roddir gan y cofrestrydd, neu ar ffurflen amlosgi 6.

46. Os yw'r 'ffurflen werdd' yn nodi presenoldeb dyfais feddygol, ac nad yw wedi cael ei thynnu, gallwch wneud ymholiadau pellach gyda'r darparwr gwasanaeth angladdau, os defnyddir un, os nad yw ffurflen Amlosgi 1 yn nodi bod dyfais feddygol mewnblanadwy wedi cael ei thynnu, neu wneud ymholiadau i naill ai'r ymarferydd meddygol neu'r ME sydd wedi'u henwi ar y ffurflen werdd.

## Rhan 4: Gwaredu llwch

47. Mae Rhan 4 y ffurflen yn ymdrin â dymuniadau ymgeiswyr mewn perthynas â llwch y person ymadawedig ar ôl yr amlosgi. Ar ôl trafod gyda staff yr amlosgfa, dylech wneud yn siŵr eich bod yn fodlon bod modd cyflawni dymuniadau'r ymgeisydd.

## Rhan 5: Adfer llwch

48. Mae'r rhan hon yn tynnu sylw ymgeiswyr at y posibilrwydd, mewn rhai achosion prin, megis amlosgi babanod marw-anedig neu fabanod bach neu rannau o'r corff, na ellir adfer llwch. Gofynnir i bob ymgeisydd gadarnhau eu bod yn deall y risg hon. **Dylech wneud yn siŵr bod tic yn y blwch hwn.**

## Rhan 6: Datganiad gwirionedd

49. **Dim ond yr ymgeisydd** am amlosgi ddylai lenwi a llofnodi’r ffurflen hon. Rhaid cael llofnod electronig neu lofnod ysgrifenedig â llaw, nid byrfodd na stamp.

# Ffurflen Amlosgi 2: Cais am waredu rhannau o gorff

50. Mae ffurflen Amlosgi 2 a gyhoeddwyd yn 2018 yn disodli fersiwn o'r ffurflen a gyhoeddwyd yn 2009.

51. Fel arfer, **caiff y ffurflen hon ei llenwi gan berthynas agos neu ysgutor yr ewyllys.**

52. Dylid cyflwyno ffurflen Amlosgi 2 gyda ffurflen Amlosgi 8 a'r dogfennau cofrestru priodol.

53. Mae'r ystyriaethau a nodir ym mharagraffau 47 a 48 uchod sy'n cyfeirio at ddymuniadau'r ymgeiswyr mewn perthynas â llwch y person ymadawedig ar ôl yr amlosgi ac adfer llwch yn berthnasol i ffurflen Amlosgi 2.

# Ffurflen Amlosgi 3: Cais i amlosgi baban marwanedig

54. Mae ffurflen Amlosgi 3 a gyhoeddwyd yn 2018 yn disodli fersiwn o'r ffurflen a gyhoeddwyd yn 2009.

55. Rhaid i'r **ymgeisydd lenwi a llofnodi'r ffurflen hon**, sef un o rieni babi marwanedig fel arfer, gyda chefnogaeth darparwr y gwasanaeth angladdau, ond gall swyddog profedigaeth yr ysbyty ei llenwi os bydd y rhieni'n gofyn am hynny.

56. Diffinnir marw-enedigaeth fel babi nad yw'n fyw ar ôl 24 wythnos lawn o feichiogrwydd, os yw'n llai na 24 wythnos nid yw rheoliadau 2008 yn berthnasol, ond er hynny gall yr amlosgfa ymgymryd â'r amlosgi.

57. Mae angen i chi fod yn fodlon, fel gyda ffurflen Amlosgi 1, bod:
    - Gan yr ymgeisydd sy'n llenwi ffurflen Amlosgi 3 hawl i wneud y cais, a
    - Nid oes unrhyw beth wedi'i gynnwys yn y wybodaeth ar y ffurflenni a ddarparwyd i awgrymu bod y baban wedi'i eni'n fyw. Os oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod y babi wedi'i eni'n fyw neu wedi dangos arwyddion annibynnol o fywyd, dylech drafod hyn gyda'r ysbyty neu'r crwner .

58. **Mae amlosgi babi marwanedig bellach yn gofyn am ddefnyddio ffurflen Amlosgi 3, <u>a</u>** naill ai:
    - **ffurflen Amlosgi 9** wedi ei llenwi gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu gan fydwraig gofrestredig. Os oes unrhyw amheuaeth, efallai yr hoffech wirio cofrestriad gyda'r corff llywodraethu priodol, naill ai'r Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (gweler paragraff 24 uchod). **<u>Neu</u>**
    - **datganiad a roddir gan berson sy'n gallu rhoi gwybodaeth am yr enedigaeth.**

59. **Rhan 6**: mae'r rhan hon yn ymdrin â dymuniadau'r ymgeiswyr am yr hyn a ddylai ddigwydd i'r llwch ar ôl yr amlosgi. Mae'n tynnu sylw ymgeiswyr at y posibilrwydd na fydd llwch yn cael ei adfer mewn rhai achosion prin. Byddwch yn dymuno bod yn fodlon bod modd cyflawni dymuniadau'r ymgeiswyr.

# Ffurflen Amlosgi 6: Tystysgrif crwner

60. Mae ffurflen Amlosgi 6 a gyhoeddwyd yn 2024 yn disodli fersiwn o’r ffurflen a gyhoeddwyd yn 2022.

61. Mae’r crwner yn llenwi’r ffurflen hon pan fydd achos wedi’i gyfeirio atynt.

62. Efallai y bydd angen i MR wneud ymholiadau pellach â swyddfa y crwner os yw’r ffurflen yn anghyflawn.

63. **Rhaid hysbysu crwner os daw unrhyw amgylchiadau amheus i’ch sylw neu os ydych chi’n credu bod gennych ddyletswydd i roi hysbysiad o dan Reoliadau Hysbysu am Farwolaethau 2019** – gweler www.gov.uk/government/publications/notification-of-deathsregulations-2019-guidance.

64. Os oes gan y crwner wybodaeth am ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy sy’n bresennol yn y corff o ganlyniad i archwilio nodiadau meddygol neu ar ôl post-mortem, byddant yn darparu hyn ar y ffurflen.

# Ffurflen Amlosgi 7: Tystysgrif yn dilyn archwiliad anatomegol

65. Mae ffurflen Amlosgi 7 a gyhoeddwyd yn 2018 yn disodli fersiwn o'r ffurflen a gyhoeddwyd yn 2009.

66. Defnyddir y ffurflen hon ar gyfer amlosgi cyrff sydd wedi cael eu rhoi i wyddoniaeth feddygol **a rhaid iddi gael ei llenwi gan weithiwr meddygol proffesiynol cofrestredig yn y sefydliad lle cynhaliwyd yr archwiliad.** Efallai yr hoffech wirio'r cofrestriad perthnasol ar wefan y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

67. Gall perthnasau neu ysgutorion yr ymadawedig wneud cais am amlosgi corff sydd wedi bod yn destun archwiliad anatomegol yn unol â Deddf Meinweoedd Dynol 2004 neu'r ddeddfwriaeth anatomi flaenorol, gan ddefnyddio ffurflen Amlosgi 1 ynghyd â ffurflen Amlosgi 7. Fel arall, caiff awdurdodau'r Ysgol Anatomi neu sefydliad trwyddedig arall o'r fath wneud y cais. Yn yr achosion hyn, dylech fod yn fodlon bod y person priodol wedi llofnodi'r cais a bod rheswm boddhaol pam nad yw'r ysgutor neu'r perthynas agosaf wedi gwneud y cais. Os oes unrhyw amheuaeth, dylech wneud ymholiadau i ganfod a yw ymdrechion i adnabod unrhyw ysgutor neu berthynas agos wedi methu, neu a yw'r ysgutor neu'r perthynas agosaf yn gwrthwynebu'r cais, ond nid ydynt yn dymuno gwneud y cais eu hunain. Gall yr ymholiadau hyn fod ar ffurf ymgysylltu â'r ymgeisydd, a/neu ei ddarparwr gwasanaeth angladdau lle defnyddir un.

68. O bryd i'w gilydd, gellir gwneud cais i amlosgi rhannau sy'n weddill o gorff a roddwyd dan ddarpariaethau Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (neu'r ddeddfwriaeth a ddisodlwyd gan y Ddeddf 2004 honno) ac sydd eisoes wedi'i hamlosgi ar wahân. Ar yr amod bod y rhannau o'r corff a gedwir yn cael eu tynnu wrth archwilio'r corff a roddwyd, bydd Y Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r farn ei bod yn rhesymol amlosgi ar awdurdod y ffurflen Amlosgi 7 bresennol.

# Ffurflen Amlosgi 8: Tystysgrif yn rhyddhau rhannau o gorff i'w hamlosgi

69. Mae ffurflen Amlosgi 8 a gyhoeddwyd yn 2018 yn disodli fersiwn o'r ffurflen a gyhoeddwyd yn 2009.

70. Defnyddir y ffurflen hon gan ymarferwyr meddygol cofrestredig i ardystio y gellir rhyddhau rhannau o gorff person ymadawedig ar gyfer amlosgi. Rhaid i ymarferydd meddygol cofrestredig lenwi'r ffurflen ar ran yr ymddiriedolaeth ysbyty neu awdurdod arall sy'n dal y rhannau o'r corff. Efallai yr hoffech wirio'r cofrestriad perthnasol ar wefan y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

71. Mae rheoliad 19 yn ymdrin ag amlosgi rhannau o'r corff a dynnwyd yn dilyn archwiliad post-mortem. Gall rhannau o'r corff hefyd gael eu llosgi yn ôl y dymuniad ac ni fydd gan y canolwr meddygol unrhyw ran mewn achosion o'r fath. **Bydd angen i chi archwilio ffurflen Amlosgi 8, ynghyd â'r ffurflen gais (ffurflen Amlosgi 2) a bod yn fodlon y cofrestrwyd marwolaeth yr ymadawedig neu fod crwner wedi cyhoeddi ffurflen Amlosgi 6 mewn perthynas â'r farwolaeth hon.**

# Ffurflen Amlosgi 9: Tystysgrif genedigaeth farw

72. Mae ffurflen Amlosgi 9 a gyhoeddwyd yn 2018 yn disodli fersiwn o'r ffurflen a gyhoeddwyd yn 2009.

73. Dylai'r ffurflen hon gael ei llenwi a'i llofnodi gan naill ai ymarferydd meddygol cofrestredig neu fydwraig gofrestredig ym mhob achos lle bydd baban marwanedig yn cael ei amlosgi – mae diffiniad ar gael drwy ddilyn y ddolen hon: Marw-enedigaeth - GIG (www.nhs.uk). Efallai yr hoffech wirio cofrestriad gyda'r corff llywodraethu priodol, naill ai'r Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

74. **Dylech fod yn fodlon bod yr wybodaeth ar ffurflen Amlosgi 9 yn cyfateb i'r wybodaeth ar y cais i amlosgi babi marwanedig (ffurflen Amlosgi 3).**

# Ffurflenni Amlosgi 10, 12 a 13: Awdurdod canolwr meddygol i amlosgi

75. Ar gyfer marwolaethau sy'n digwydd yng **Nghymru a Lloegr**, dylid defnyddio'r fersiwn wedi'i haddasu o **ffurflen Amlosgi 10** a gyhoeddwyd yn 2024. Ar gyfer marwolaethau **yng ngweddill Ynysoedd Prydain ac eithrio Cymru a Lloegr,** rhaid defnyddio'r fersiwn o **ffurflen Amlosgi 10** a gyhoeddwyd yn 2018. Rhaid i'r ddwy fersiwn o ffurflen Amlosgi 10 gael eu llenwi a'u llofnodi gan y MR.

76. Roedd y ffurflenni Amlosgi 12 a 13 a gyhoeddwyd yn 2018 yn disodli'r fersiwn o'r ffurflenni a gyhoeddwyd yn 2009 a rhaid eu llenwi a'u llofnodi gan y MR.

77. Wrth lenwi'r ffurflenni hyn, dylech wirio enw, cyfeiriad a galwedigaeth yr ymadawedig yn erbyn y rheini ar y ffurflenni eraill a'r ddogfen gofrestru, os oes rhai, ac ymholi ynghylch unrhyw anghysondebau cyn i chi awdurdodi amlosgi.

78. **Rhaid i chi bob amser lenwi Rhan 2 ffurflen Amlosgi 10, 12 neu 13.**

# Ffurflen Amlosgi 11: Tystysgrif yn dilyn archwiliad post-mortem

79. Mae ffurflen Amlosgi 11 a gyhoeddwyd yn 2018 yn disodli fersiwn o'r ffurflen a gyhoeddwyd yn 2009.

80. O dan y system newydd, rydym yn dileu'r ddarpariaeth sy'n caniatáu i MRs wneud cais am bost-mortem ar gyfer pob achos yng Nghymru a Lloegr. **Yr unig achosion lle bydd MR yn cadw'r pŵer i wneud cais am bost-mortem yw lle digwyddodd marwolaeth yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel, ond lle mae'r ymgeisydd yn dymuno i'r amlosgi ddigwydd yng Nghymru a Lloegr.** Yn yr achos hwn, dylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio gan berson sy'n cyflawni'r post-mortem o dan Adran 24 Rheoliadau 2008.

81. Yn yr achosion a ddisgrifir uchod ym mharagraff 80, os ydych o'r farn nad yw ffaith ac achos y farwolaeth wedi'u canfod yn bendant, gallwch wrthod awdurdodi'r amlosgi, gan nodi eich rhesymau. Fodd bynnag, os yw'r teulu'n dal i ddymuno amlosgi'r corff, byddai angen i chi drefnu bod archwiliad post-mortem yn cael ei gynnal gan batholegydd o'ch dewis chi neu'r awdurdod amlosgi, o dan Reoliad 24(2). Rhaid i unrhyw archwiliad post-mortem gael ei gynnal o dan awdurdod trwydded a roddwyd o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.

82. Ym mhob achos o'r math hwn, **rhaid i chi gael caniatâd y teulu fel y nodir yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004.** Er bod y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymadawedig roi caniatâd ar gyfer archwiliad post-mortem tra'i fod yn dal yn fyw, nid yw hyn yn debygol o fod yn gyffredin. Felly, bydd angen i'r patholegydd fod yn fodlon bod cynrychiolydd enwebedig neu oedolyn a oedd mewn "perthynas gymwys" â'r ymadawedig yn union cyn ei farwolaeth yn rhoi caniatâd.

83. Diffinnir "perthynas gymwys" gan is-adran 54(9) Deddf 2004 fel priod, partner sifil, rhiant, plentyn, brawd, chwaer, nain neu daid, ŵyr/wyres, plentyn brawd neu chwaer, llystad, llysfam, hanner brawd, hanner chwaer a ffrind ers amser maith. Mae'r perthnasoedd cymwys hyn yn cael eu rancio a dylid gofyn am ganiatâd gan y person sydd yn y safle uchaf yn yr hierarchaeth o berthnasoedd cymwys (gweler cod ymarfer Post Mortem HTA am fanylion ynghylch pwy gaiff roi cydsyniad).

84. **Bydd angen cytuno ar unrhyw benderfyniad ynghylch unrhyw ffi ar gyfer yr archwiliad post-mortem rhwng yr oedolyn priodol ac aelodau eraill o'r teulu a'r awdurdod amlosgi. Yn amodol ar nifer y profion sy'n ofynnol, gall y ffi fod yn sylweddol.**

# Materion eraill

## Marwolaethau dramor

85. Pan fydd rhywun yn marw dramor a bod y corff yn dychwelyd i Gymru neu Loegr ar gyfer amlosgi, mae trefniadau arbennig yn gymwys mewn perthynas â ffurflenni cais a thystysgrifau o dan reoliad 14 Rheoliadau 2008.

86. Pan fydd rhywun yn marw yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel, gallwch dderbyn yr hyn sy'n cyfateb i'r ffurflenni cais amlosgi a gyflwynwyd dan y gyfraith sy'n berthnasol yn yr awdurdodaethau hynny, ar yr amod eu bod yn cynnwys yr holl fanylion sy'n ofynnol dan ffurflen Amlosgi 1. Gallwch hefyd dderbyn yr hyn sy'n cyfateb i'r dystysgrif feddygol, tystysgrif feddygol gadarnhau, tystysgrif y crwner neu'r dystysgrif yn dilyn archwiliad anatomegol, ar yr amod eu bod yn cynnwys yr holl fanylion sy'n ofynnol gan y tystysgrifau hynny fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau.

87. Ar gyfer marwolaeth a ddigwyddodd yn yr Alban, dylai'r canlynol fynd gyda ffurflen Amlosgi 1 neu ffurflen gyfatebol:
    - **Naill ai** Ffurflen 14 – Tystysgrif Cofrestru Marwolaeth
    - **neu** Ffurflen E1 (a gyhoeddwyd os oes procuradur ffisgal wedi bod yn gysylltiedig ac wedi rhyddhau'r gweddillion ar gyfer amlosgi); **a**
    - dylid cael Tystysgrif Dim Atebolrwydd i Gofrestru hefyd gan y cofrestrydd yng Nghymru neu Loegr, lle bwriedir amlosgi'r corff yn ei ardal, a rhoi gwybod i grwner yr ardal lle bydd yr amlosgi'n digwydd.

88. Ar gyfer marwolaeth a ddigwyddodd yng Ngogledd Iwerddon, dylai'r canlynol fynd gyda ffurflen Amlosgi 1 neu ffurflen gyfatebol:
    - **Naill ai** Ffurflen Amlosgfa Gogledd Iwerddon B (Y Dystysgrif Feddygol) **a** Ffurflen C (sy'n dilysu'r wybodaeth yn Ffurflen B) – rhaid i feddyg yng Ngogledd Iwerddon lenwi'r ffurflenni hyn – **neu** Ffurflen 20a (Awdurdod y crwner ar gyfer Amlosgi); **a**
    - Rhaid i'r crwner ddarparu Tystysgrif Cofrestru Marwolaeth (sy'n cyfateb i'r Ffurflen Werdd) a Ffurflen 18 (Tystysgrif Crwner ar gyfer Symud Corff o Ogledd Iwerddon); **a**
    - Ffurflen Cyngor Gogledd Iwerddon, sy'n rhoi gwybodaeth ynghylch a oes mewnblaniad peryglus yn bresennol ac a yw wedi cael ei dynnu. Rhaid i hyn gael ei lenwi gan y meddyg sy'n llenwi Ffurflen B neu gan y crwner .

89. Os bydd rhywun yn marw y tu allan i Gymru a Lloegr, ond nid yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel, cewch dderbyn ffurflen gais sy'n

cynnwys y manylion y gofynnir amdanynt yn ffurflen Amlosgi 1. Byddai hyn yn cynnwys datganiad cyfatebol o wirionedd.

90. Yn ymarferol, bydd y rhan fwyaf o geisiadau am amlosgi mewn perthynas â marwolaethau y tu allan i Gymru a Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel yn gofyn am ffurflen Amlosgi 6 gan grwner, a fydd yn archwilio'r dogfennau tramor perthnasol gan gynnwys y dystysgrif marwolaeth. Bydd angen i'r crwner fod yn fodlon bod achos y farwolaeth wedi'i ganfod neu y bydd angen cynnal ymchwiliad. Os oes gennych unrhyw bryderon am achos y farwolaeth lle mae rhywun wedi marw y tu allan i Gymru a Lloegr, dylech drafod yr achos gyda'r crwner.

## Marw-enedigaethau y tu allan i Gymru a Lloegr

91. Yn achos plentyn marw-anedig y tu allan i Gymru a Lloegr, cewch dderbyn tystysgrif marw-enedigaeth feddygol a roddwyd gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu fydwraig gofrestredig (neu unigolyn sydd â hawl i ymarfer fel ymarferydd meddygol neu fydwraig) yn y man lle digwyddodd y farw-enedigaeth, o dan reoliad 14(4) Rheoliadau 2008, ar yr amod ei bod yn cynnwys yr holl fanylion sy'n ofynnol gan y dystysgrif marw-enedigaeth. Dylech wneud hyn ar ôl gwneud unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol yn eich barn chi, ar yr amod eich bod yn fodlon bod y babi'n farw-anedig ac nad oes rheswm dros archwiliad pellach.

## Gweddillion anhysbys

92. Ni ddylech ystyried ceisiadau ar gyfer amlosgi olion anhysbys oni bai fod Tystysgrif y crwner (ffurflen Amlosgi 6) wedi cael ei chynhyrchu. Bydd yr amgylchiadau sy'n ei gwneud yn amhosibl dod o hyd i'r gweddillion hefyd yn mynnu bod y crwner yn cael gwybod am y farwolaeth a bod ymchwiliadau digonol wedi cael eu cynnal.

## Amlosgi gweddillion ffetysau anhyfyw

93. Nid yw gweddillion ffetysau o dan gyfnod beichiogrwydd o 24 wythnos yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau 2008, er y bydd y rhan fwyaf o amlosgfeydd yn barod i amlosgi gweddillion o'r fath yn ôl eu disgresiwn. Ni ddylech lenwi ffurflen Amlosgi 10 i awdurdodi eu hamlosgi. Os bydd rheolwyr a staff amlosgfeydd yn gofyn i chi am gyngor proffesiynol ynghylch cais i amlosgi ffoetws rhag-hyfyw, mater i chi yw a ydych yn darparu cyngor o'r fath ai peidio.

# Rhagor o Wybodaeth

94. Ni fwriedir i'r canllawiau hyn fod yn hollgynhwysol a bydd achosion unigryw yn codi pan fydd angen cymorth arnoch. Os oes angen unrhyw ganllawiau neu wybodaeth nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon arnoch, cysylltwch â'r tîm Polisi Claddu ac Amlosgi yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn BurialsandCremation@justice.gov.uk.

# Atodiad A – Mewnblaniadau pŵer batri a dyfeisiadau meddygol mewnblanadwy eraill a allai achosi problemau wrth amlosgi

Mae mewnblaniadau a allai achosi problemau yn ystod amlosgi yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Rheolyddion calon;
- Diffibrilwyr Cardiaidd a Fewnblannwyd (ICDs);
- Dyfeisiau therapi ailgydamseru cardiaidd (CRTDs) Recordyddion dolen mewnblanadwy;
- Dyfeisiau cymorth fentriglaidd (VADs): Dyfeisiau cymorth fentriglaidd chwith (ADV), dyfeisiau cymorth fentriglaidd dde (RVADs), neu ddyfeisiau cymorth deufenriglaidd BiVADs);
- Pympiau cyffuriau mewnblanadwy gan gynnwys pympiau mewnweiniol;
- Niwrosymbylwyr (gan gynnwys ar gyfer poen a Symbyliad Trydanol Gweithredol) Symbylwyr twf esgyrn;
- Hoelion Fixion;
- Unrhyw fewnblaniad arall sy'n defnyddio batri neu sy'n cynnwys pwysedd;
- Mewnblaniadau ymbelydrol a ddefnyddir i drin tiwmorau, fel gwifrau metel, hadau neu diwbiau; a
- Thriniaeth radiofferylliaeth (drwy bigiad)

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2024**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i, nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i BurialsandCremation@justice.gov.uk